# Aelodau Craffu

## Cymwyseddau

a. Yn gweithredu fel ffrind beirniadol drwy geisio cyfleoedd i graffu a darparu adborth adeiladol.
b. Yn dadansoddi gwybodaeth yn effeithiol ac yn cyflwyno dadleuon mewn ffordd gryno, ystyrlon a hawdd ei ddeall.

| **Mae Aelod Craffu effeithiol yng Nghyngor Gwynedd:** | **Mae Aelod Craffu aneffeithiol yng Nghyngor Gwynedd:** |
|---|---|
| • Yn chwilio am ddulliau newydd a phynciau perthnasol ar gyfer herio beirniadol a chraffu<br>• Yn dadansoddi ac yn cymathu gwybodaeth gymhleth yn effeithiol, gan ystyried y cyd-destun strategol ehangach<br>• Yn cyflwyno dadleuon mewn ffordd gryno, ystyrlon a hawdd ei ddeall<br>• Yn gofyn am esboniadau ac yn gwirio bod argymhellion yn cael eu gweithredu;<br>• Yn wrthrychol, trylwyr ac yn dyfalbarhau wrth herio prosesau, penderfyniadau a phobl<br>• Yn gweithredu fel ffrind beirniadol, yn darparu adborth adeiladol ac yn cydnabod llwyddiant<br>• Yn cadw ffocws y drafodaeth i'r pwnc dan sylw | • Yn peidio â pharatoi yn drylwyr neu wirio ffeithiau, yn defnyddio gwybodaeth ddethol ac yn dod i gasgliadau goddrychol neu ragfarnllyd<br>• Yn or ddibynnol ar swyddogion ac yn tueddu i dynnu'n ôl pan fo'n cael ei herio<br>• Yn methu adnabod na chymryd rhan mewn craffu fel rhan o'i rôl<br>• Yn cymathu gwybodaeth newydd yn araf, yn canolbwyntio ar fanylion ac yn methu gwahaniaethu rhwng gwybodaeth bwysig, amherthnasol neu anghywir<br>• Yn fwriadol wrthwynebus, yn ymosodol ac yn ddadleugar<br>• Yn cam-ddefnyddio prosesau craffu er budd gwleidyddol, yn hytrach na gweithio ar y cyd er lles y cyngor |